C.FF.I. CEREDIGION Y.F.C.

Rhifyn 17
Hydref 2010

# Ar Dân!

## YR ARAD YN DYCHWELYD I GEREDIGION



www.yfc-ceredigion.org.uk

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
## (Annual General Meeting)

Ar nos Fercher Medi'r 22ain cafodd Cyfarfod Cyffedinol Blynyddol CFfl Ceredigion ei gynnal yn Neuadd Ciliau Aeron. Gyda nifer fawr yn bresennol trafodwyd materion holl bwysig.
Etholwyd Brownen Morgan fel Llywydd y Sir, Eifion Morgans fel Is-Lywydd.
Alwen Thomas cafodd yr anrhydedd o'i hethol yn Gaderiydd, gyda Manon Richards yn Is-Gadeirydd. Pob hwyl i chi yn eich swyddi.

I orffen y cyfarfod, roedd cwpan Rhodri Evans i'w gyflwyno i'r clwb oedd wedi llwyddo i gynyddu rhif eu haelodaeth y llynedd ac fe'i enillwyd gan Glwb Llangwyryfon; Mydroilyn yn 2il; Llanddewi Brefi yn 3ydd a Felinfach yn 4ydd. Dangoswyd cynnydd aelodaeth gan y clybiau canlynol hefyd, Bro'r Dderi; Talybont a Thrisant.



Dymuna C.Ff.I. Ceredigion ddiolch yn arbennig i Y Cwch Gwenyn/The Hive yn Aberaeron am noddi'r Cyfarfod Blynyddol.

# Joio yn Wrecsam!

Unwaith eto eleni gwelwyd Ceredigion yn dangos y ffordd i gefnogi Cyfarfod Blynyddol CFfl Cymru. Aeth llond bws o aelodau a chyn-aelodau i fwynhau Penwythnos o gemau, cymdeithasu a chwrdd â phobl newydd. Yn y cyfarfod gwelwyd nifer o wynebau cyfarwydd, gyda Cheredigion yn ennill yr Arad am y nifer mwyaf o bwyntiau yng nghystadlauthau'r flwyddyn. Hefyd braint oedd gweld Enfys Evans, Llanddeiniol yn cael ei hethol yn Gadeirydd Cymru am y flwyddyn 2010/2011.














# Gair gan Enfys



Byth adre dwi'n feddwl fydd y disgrifiad gorau ar gyfer yr hyn sydd i ddod yn ystod fy mlwyddyn fel Cadeirydd CFfl Cymru. Mae'n wir anrhydedd cael cynrychioli aelodau Cymru gyfan a dwi'n gobeithio caf y cyfle i gwrdd ag amryw ohonynt wrth i mi ymweld â'r siroedd. Does dim amheuaeth bod pob blwyddyn CFfl yn un brysur ac nid eithriad fydd hon gyda rhaglen lawn o gystadlaethau a gweithgareddau eraill wedi eu trefnu. Dwi'n edrych ymlaen at y penwythnos Gwledd o Adloniant yn theatr y Grand, Abertawe a gobeithio manteisiwch ar y cyfle i gael eich diddanu gan dalent yr aelodau a threulio'r penwythnos yn ein cwmni. Efallai nad ydym fel mudiad yn hoff iawn o newid ond mae'n bwysig ein bod yn datblygu a thrio pethau newydd. Dyma'r ffordd i sicrhau ein bod fel mudiad yn symud gyda'r oes ac yn parhau mor berthnasol i bobl ifanc ein cymunedau cefn gwlad heddi ag yr oedd pan sefydlwyd CFfl Cymru 75 mlynedd yn ôl.
Mae trafodaethau diddorol ar y gweill yn ogystal ac erbyn Haf 2011 mi fydd gan CFfl Cymru logo newydd a phenderfyniad wedi ei gymryd ar ddyfodol ystod oedran y mudiad yng Nghymru. Hefyd mae gwaith ymchwil yn cael ei gwblhau fydd yn ffurfio pecyn gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer trafodaeth o fewn y siroedd ynglyn â'u perthynas hwy a FfCCFfl a CFfl Cymru.
Elfen bwysig o'r flwyddyn i mi fydd cyfathrebu ac hyn ar sawl lefel. Dwi am sicrhau fod pob aelod o'r ieuengaf i'r hynaf, o aelodau oes i ddarpar aelodau yn gwybod yn union beth sy'n mynd ymlaen, y cyfleoedd sydd ar gael iddynt a sut allan nhw gyfrannu eu syniadau a'u sylwadau. Wedi'r cyfan eu mudiad hwy yw'r CFfl. Yn ail, cyfathrebu'r neges ma'r CFfl yw'r mudiad gorau i bobl ifanc cefn gwlad Cymru ac addysgu pobl bod tipyn mwy i'r CFfl na'r stereoteip cyffredin.
Odi, mae'n mynd i fod yn flwyddyn fishi ond dwi am roi nôl gymaint gallaf, er mae canran fach yw hwnnw i gymharu â'r cyfleoedd ar ddatblygiad personol dwi wedi brofi drwy fy ymwneud â'r mudiad dros yr ugain mlynedd diwethaf.

---



# Aelod o Dramor

Hello I'm Chris Strange from Taranaki New Zealand. Back home I work on a Dairy farm milking 440 cows day and night. I came over to Wales in September 2009 and have been a member of Pennant YFC since arriving. It is a new experience for me as there isn't anything like it at home. It has been a good way to meet new people and a lot of fun. I have taken part in the Rali, in the 'Seren Wib' group competition singing "Pishyn Pishyn". Also I went to the Queens ball, the Royal Welsh and I also participated in the sports day playing football and I also ran the 100m and the relay. While here I have been working mainly at Dyffryn Arth farm with the Evans family which has been a good experience and taught me a lot. I'd like to thank them for everything and welcoming me into the family. At home I play cricket and football but recently I have started playing rugby for Aberaeron, which has been a good laugh. I would like to thank all the members of Pennant YFC for being so welcoming and also to Buddug Lloyd for organising us all. I am now looking forward to enjoying the next year in Wales and then returning home to the World Cup in October, but hopefully will return to Wales in the future.

# Taith i Illinois, USA
## Mererid Jones ac Eirian Williams CFfI Felinfach

Wedi chwe awr ar hugain o deithio, mewn car, bws ac awyren, roedd hi'n braf cael cyrraedd pen y daith. Ble oedd hyn chi'n gofyn? Tref gwledig o'r enw Fairburry yn nhalaith Illinois, sydd ryw ddwy awr i'r De o Chicago. Ardal y Cornbelt, ac fel mae'r enw'n awgrymu, ardal o dyfu cnydau.

Yn ystod y dair wythnos bu'r ddwy ohonom yn aros gyda tri teulu gwahanol, i gyd o gefndir amaethyddol ac yn byw allan yn y wlad.
Sylwom ar nifer o bethau gwahanol rhwng Illinois a Chymru. Y peth amlycaf oedd bod y tir mor wastad. Pan ddwedwyd wrthym ein bod ni yn sefyll ar ben mynydd roedden ni methu coelio'r peth, roedd y 'mynydd' yn hollol wastad!! Yn ogystal â hyn roedd y ffyrdd i gyd yn hollol syth ac yn ymestyn tuag at y gorwel. Wrth deithio ar hyd y ffyrdd syth yma gwelwyd bod y caeau yn anferth, tua 80 acer yr un, a dim sôn am gloddiau a ffensys yn unman.

Bum yn ymweld â nifer o ffermydd yn ystod y daith. Stone Ridge Dairy, fferm odro anferth oedd yn godro 3,500 o wartheg tair gwaith y dydd!! Spence Farm oedd yn hunan gyhaliol ac yn gwerthu eu cynnyrch, megis cig moch, wyau,llysiau, ffrwythau a 'maple syrup' i fwytai yn Chicago a Bloomington. Kilgus Dairy, fferm odro oedd wedi agor siop i werthu cynnyrch eu hunain megis llaeth, iogwrt a hufen iâ blas pwmpen, roeddent hefyd yn magu geifr er mwyn eu gwerthu i'r bwytai yn Chicago. Roedd fferm Zeher yn magu lloi ar gyfer nifer o ffermydd godro a bum yn treulio'r diwrnod yn bwydo'r lloi a oedd yn byw mewn cytiau bach. Heb anghofio cael sawl wac ar y Combine Harvesters i fedi'r cnydau ar nifer o ffermydd gwahanol.

Tra ar ein ymweliad ar UDA bum yn ymeld a'r 'World Dairy Expo' yn Madison Wisconsin, treulio diwrnod yn Chicago, ymweld â pherllan, chwarae golff, mynd i Amgueddfa Lincoln yn Springfield, ymweld â Interglobe Genetics – Fferm oedd yn arbenigo mewn 'AI'. Yn ogystal a threulio amser yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd yn siarad â'r disgyblion am Gymru, bum hefyd yn profi ychydig o ddiwylliant Americanaidd mewn Shrimp Boil, Fish Fry, Weiner Roast ac yn Tailgatto ar ôl bod yn gwylio gêm o bêl droed Americanaidd.



Hedfanodd y dair wythnos heibio a chawsom amser anhygoel yn nghwmni'r bobl. Rhaid dweud ei bod hi'n anodd iawn i droi am adre gan ein bod ni wedi mwynhau pob eiliad. Pwy â wyr efallai cawn y cyfle i fynd nôl ryw ddydd.

# Ar dramp i'r Alban!

Bu Gwenno Tudor a Betsan Hughes o glwb Llanddeiniol, Cerys Owens o glwb Tregaron a minnau (Esyllt) ynghyd â dau aelod arall o Gymru, yn ddigon ffodus i gael ein dewis i gynrychioli CFFI Cymru i fynychu Camp Ieuenctid CFFI yr Alban yn Inverness. Sara Downes cafodd y dasg i fod yn arweinydd arnom am y penwythnos! Cychwynom yn gynnar ar y trên o Aberystwyth. Chwe awr yn ddiweddarach roeddem wedi cyrraedd Caeredin, lle gwnaethom gwrdd â rhai o aelodau'r Alban ac Ulster. Strabs a hanner! Dal bws, ac ymhen tair awr, roeddem wedi cyrraedd! Roeddem yn aros yn Lagganlia, Inverness. Ar ôl swper, bum yn cymdeithasu a dod i adnabod ein gilydd yn well trwy wneud gemau "sosial" a chael ein rhoi yn ein grwpiau ar gyfer y penwythnos. Dydd Sadwrn buom yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol e.e. caiaco, dringo, sgïo, cerdded trwy afonydd. Ar y nos Sadwrn, buom yn cymdeithasu a joio eto mewn gemau amrywiol yn ymwneud â chalan gaeaf. Roedd y gemau yma yn amrywio o ras gwisgo crys-t oedd wedi rhewi, cerfio pwmpen, gwisgo rhywun lan fel gwrach a sioe ffasiwn. Ar fore dydd Sul buom ar helfa drysor o amgylch y ganolfan, ac yna y seremoni wobrwyo - pawb yn cael rhyw anrheg a thystysgrif i gofio'r penwythnos. Daeth amser i fynd adre llawer yn rhy fuan. Mae'r cyfle yma ar gael bob blwyddyn - ewch amdani a gallwn ni gyd eich sicrhau y byddwch yn joio mas draw gyda'r Scots a'r Irish!!

**Esyllt Ellis Jones, Clwb Llangwyryfon**

# RALI!



Ar ddiwrnod bendigedig gyda'r haul yn tywynnu ar gaeau Morfa, Llanrhystud daeth aelodau a ffrindiau'r mudiad yng Ngheredigion i fwynhau croeso cynnes Clwb Llanddeiniol ac ymuno ym miri, bwrlwm a chyffro y Rali flynyddol! Croeso i Gymru oedd thema y diwrnod eleni a chafwyd blas ar bob agwedd o fywyd Cymreig yn yr amrywiol gystadlaethau. Ar ddiwedd y dydd Pontsian gipiodd y rali gyda Talybont yn ail agos iawn a Chaerwedros a Llanwenog yn gydradd drydydd. Bu cystadlu brwd drwy'r dydd, a dyma fel y gwelwyd pethau gan y beirniaid eleni.....

**Barnu Gwartheg Godro** – Dan 16 – Cennydd Jones, Pontsian; Dan 21 – Rhodri Hopkins, Llangwyryfon; Dan 26 – Geraint Jenkins, Talybont;
**Tîm buddugol** – Pontsian;
**Pecyn Croeso i Gymru** – Talybont;
**Arddangosfa Ffederasiwn** – Penparc;
**Crefft** – Gareth Jenkins, Talybont; Coginio – Gwion Davies ac Owen McConochie, Felinfach;
**Gosod Blodau** – Ffion Lewis, Trisant; **Cystadleuaeth yr Aelodau** – Felinfach;
**Coedwigaeth** – Llion Davies a Geraint Evans, Troedyraur;
**Olrhain Hanes** – Llangeitho;
**Barnu Defaid Duon Cymreig** – Dan 16 – Gwion Evans, Talybont; Dan 21 – Dwynwen Leonard, Caerwedros; Dan 26 – Aled Llyr Thomas, Talybont;
**Unigolyn Uchaf** – Aled Llyr Thomas, Talybont; Tîm Buddugol – Talybont;
**Seren Wîb** – Llanwenog;
**"Generation Game"** – Sioned James a Carwyn Evans, Penparc;
**Dawnsio** – Pontsian;
**Cystadleuaeth Gwisgo** – Delyth Williams a Sioned Rees-Evans, Lledrod;
**Cneifio defaid** – Dan 21 – Ceredig Lewis, Llangwyryfon; Dan 26 – Rhydian Evans, Talybont; Tîm Buddugol – Talybont;
**Barnu Moch** – Dan 16 – Ifan Morgan, Penparc; Dan 21 – Dewi Jenkins, Talybont; Dan 26 – Eifion Jenkins, Talybont; Tîm Buddugol – Talybont;
**Campwyr Campus** – Llanwenog;
**Arddangosfa'r Prif Gylch** – Caerwedros;
**Tablo** – Llangwyryfon;
**Gwneud Arwydd** – Llanddeiniol;
**Barnu Stoc** – Unigolyn Uchaf dan 16 – Ifan Morgan, Penparc a Cennydd Jones, Pontsian; Unigolyn Uchaf dan 21 – Rhodri Hopkins, Llangwyryfon; Unigolyn Uchaf dan 26 – Eifion Jenkins, Talybont;
**Unigolyn Uchaf yn y Barnu Gwartheg Godro** – Rhodri Hopkins, Llangwyryfon;
**Unigolyn Gorau am y rhesymau yng Nghymraeg** - Dewi Jenkins, Talybont; Clwb Gorau yn y Barnu Stoc - Talybont;
**Ffermwyr Gorau'r Flwyddyn** – Sara Downes, Llangeitho a Wyn Thomas, Pontsian;
**Anrheg Goffa W.G.Hughes & W.D. Lewis** – Manon Richards, Llanwenog ac Emyr Evans, Felinfach;
**Ysgrifennydd Clwb Gorau** – Esyllt Ellis-Jones, Llangwyryfon;
**Aelod a dreuliodd yr amser hiraf ar daith ryngwladol** – Gwawr Thomas, Pontsian;
**Aelod mwyaf gweithgar y flwyddyn** – Menna Davies, Dihewyd;
**Clwb gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2009/10** – Buddugwyr – Pontsian; ail fuddugol – Llanwenog;
**Y clwb "bychan" gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2009/10** – Llanddewi Brefi:

# C.FF.I. Ceredigion yn gydradd 2il yn Sioe'r Cardis

Ynghanol prysurdeb o noddi'r Sioe eleni bu nifer fawr o aelodau C.FF.I. Ceredigion yn cystadlu yn y Sioe Frenhinol. Daeth y Sir yn gydradd 2il ar ddiwedd y pedwar diwrnod gydag 89 o farciau gyda Sir Gar yn ennill gyda 92 o farciau. Dyma ganlyniadau Ceredigion:



**Arddangosfa Ffederasiwn** – 1af: Penparc
**Hyrwyddo Clwb** – 1af: Llanwenog
**Pecyn Croeso i Gymru** – 9fed: Talybont
**Cystadleuaeth yr Aelodau** - 3ydd (Crefft, Coginio a Blodau)
**Crefft** – 2il: Gareth Jenkins, Talybont
**Coginio** – 3ydd: Gwion Davies ac Owen Mc Conochie, Felinfach
**Blodau** - 9fed : Ffion Lewis, Trisant
**Campwyr Campus** - 10fed: Llanwenog
**Barnu Moch** - 1af: Eifion Jenkins, Talybont 3ydd 26 ac iau; Cadog Davies, Dihewyd 1af 18 ac iau; Ifan Morgan, Penparc 2il 16 oed ac iau
**Gwisgo i Fyny** – 2il: Delyth Williams a Sioned Rees-Evans, Lledrod
**Dawnsio** – 4ydd: Pontsian
**Croeso i Gymru** - 5ed: Caerwedros



**Barnu Defaid Mynydd Duon Cymreig** – 2il : Aled Llŷr Thomas, Talybont 1af 26 oed ac iau a 1af hefyd am roi rhesymau yn Gymraeg; Rhys Lloyd Jones, Llanddewi Brefi – 1af 21 oed ac iau; Dwynwen Leonard, Caerwedros 18 oed ac iau a Gwion Evans, Talybont 16 oed ac iau
**Tynnu'r Gelyn** – 5 ed: Llanddewi Cymysg a Llanwenog
**Seren Wîb** – 5 ed: Unigol – Enfys Hatcher, Llanwenog 8fed a Grŵp Caerwedros cydradd 3ydd
**Coedwigaeth** – 3ydd: Llion Davies a Geraint Evans, Troedyraur
**Olrhain Eich Hanes** – 3ydd: Llangeitho
**Barnu Gwartheg Godro** – 4ydd : Geraint Jenkins, Talybont 1af 26 oed ac iau; Llŷr Jones, Pontsian 3ydd 21 oed ac iau; Rhodri Hopkins, Llangwyryfon 18 oed ac iau a Cennydd Jones, Pontsian 16 oed ac iau
**'Generation Game'** – 2il: Sioned James a Carwyn Evans, Penparc
**Cneifio** – 4ydd: Rhydian Evans, Talybont 1af 26 oed ac iau a Ceredig Lewis, Llangwyryfon
**Barnu Stoc oferol** – 2il
**Rygbi 7 bob ochr:** 1 af Man of the Match – Mike Diggle, Troedyraur

***Llongyfarchiadau i bawb a fu yn cynrychioli'r Sir yn y Sioe.***

## It's A Knockout



Eleni eto cafodd aelodau Iau y Sir eu cyfle nhw i gael sbort a chymdeithasu wrth iddynt wneud ei ffordd i Gel-Aeron ar ddechrau mis Gorffennaf i gymryd rhan yn yr It's A Knockout sydd bellach yn ddigwyddiad blynyddol ac yn tyfu bob blwyddyn. Gyda dros ugain o dimoedd yn cymryd rhan, a gyda chwech aelod mewn tîm, roedd e'n llond y lle o chwerthin, joio ac aelodau iau yn cymdeithasu! O reidio beics, taflu sbynjis gwlyb, cymryd rhan mewn gêm fach o jenga a chwis ar ardaloedd Cymru, roedd yna ddigon o gemau amrywiol i bawb wedi eu trefnu gan Geraint Hatcher ac Eifion Morgans. Ar ddiwedd y noson gwelwyd Tîm Llangwyryfon A yn ennill yr It's A Knockout. Da iawn chi! Wedi'r gemau cafwyd cyfle i brynu ychydig o fwyd er mwyn bwrw'r blinder a gafodd ei goginio gan y swyddogion newydd.





***Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth gymryd rhan a helpu trefnu'r digwyddiad!***

## DIWRNOD MAES FfCCFfI

Wedi i Langeitho ennill y gystadleuaeth Arddangosfa Sirol yn Niwrnod Maes CFfI Ceredigion, ac yna dod yn drydydd yng Nghymru, ymlaen oedd hi nesaf i Malvern i gael cystadlu ar lefel Cenedlaethol. Sara Downes yn gwneud y 'cross-stitch', Sian Downes yn addurno cacen, Manon Turner wrthi'n creu arddangosfa blodau, Bleddyn McAnulty Jones gyda'r camera a Martha Grug yn coginio bisgedi. Roedd yna lawer o baratoi ar gyfer y gystadleuaeth 'Ein Sir Ni', ond yn wir bu'r holl waith gwerth chweil gyda Llangeitho o Geredigion yn cipio'r drydydd wobr.

***Llongyfarchiadau***



## Treialon Cŵn Defaid CFfI Ceredigion:



Cipiodd Aled Llŷr o Dalybont y wobr gyntaf yn adran y CFfI.

## Chwaraeon y Sir




Ar ddiwedd diwrnod braf o Haf a phob math o chwaraeon gwelwyd Pontsian a Bro'r Dderi yn rhannu'r safle cyntaf yn Chwaraeon y Sir.

## Ceredigion yn Stoneleigh

Aeth criw o aelodau i gynrychioli Cymru yng nghystadlaethau NFYFC yn Stoneleigh ar benwythnos Hydref 9-10. Gyda Siarad Cyhoeddus, Hoci a Volleyball cafodd nifer o aelodau brofiadau bythgofiadwy a chryn lwyddiant yn y cystadlaethau. Llongyfarchiadau i Sian Downes (Siaradwraig) a Meirian Morgan (Diolchydd) o Langeitho ac i Morgan Davies (Cadeirydd) o Fydroilyn ar ddod yn drydydd yn siarad cyhoeddus dan 16 drwy gyfrwng y Saesneg. Hefyd llongyfarchiadau i tîm Volleyball Pontsian am gipio'r 4ydd wobr. Da iawn i chi gyd!

## Sialens Tim





Ar faes Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru yn Llanechaeron ar Ddydd Llun, Mai 31ain cafodd CFfI Cerdigion y cyfle i rhoi Sialens i Tim John, Cadeirydd CFfI Cymru wrth ofyn iddo ef a phedwar aelod adnabyddus o'r CFfI, sef Arwel Jones, Glyn Davies, Gareth Lloyd a Wyn Thomas i wacsio eu coesau ar y maes er mwyn codi arian tuag at elusen CFfI Cymru 2009-2010 sef Sefydliad Aren Cymru.

***Poenus iawn!***

# Cystadlu

## Siarad Cyhoeddus Saesneg

Cynhaliwyd y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg eleni ar gampws Theatr Felinfach ar Nos Iau a Nos Wener, Hydref 7fed a 8fed. Gyda dros 120 o aelodau yn cystadlu gwelwyd safon uchel a dyma'r canlyniadau ar ddiwedd y cystadlu:

Dan 14:
Cadeirydd – 1af Lowri Davies, Dihewyd A; 2il Rhys Davies, Llanwenog B; cydradd 3ydd Gwenyth Richards, Pontsian A ac Elen Davies, Pontsian B;
Darllenwyr – 1af Meleri Morgan, Llangeitho; 2il Lowri Davies, Dihewyd A; 3ydd Elen Davies, Pontsian B;

Dan16:
Cadeirydd: – 1af Sioned Davies, Llanwenog A; 2il Gwawr Hatcher, Llanwenog B; 3ydd Rhian Davies, Felinfach;
Siaradwr – 1af Bethan Green, Caerwedros B; 2il Siân Downes, Llangeitho A; 3ydd Paige Denyer, Mydroilyn A;
Diolchydd – 1af Marian Thomas, Llanwenog A; 2il Emma Evans, Caerwedros B; 3ydd Rhys Jenkins, Mydroilyn A;
*Tîm* – cydradd 1af Caerwedros B a Llanwenog A; 3ydd Mydroilyn A.

Dan 21:
Cadeirydd – 1af Hannah Parr, Llangeitho; 2il Enfys Hatcher, Llanwenog; 3ydd Bethan Roberts, Mydroilyn;
Siaradwr – 1af Dafydd Morgan, Pontsian; 2il Meira Lloyd, Llangeitho; 3ydd Carwyn Jones, Mydroilyn;
Tîm – cydradd 1af Llangeitho a Mydroilyn; cydradd 3rd Llanwenog a Phontsian.

Dan 26:
Cadeirydd – 1af Einir Ryder, Pontsian; 2il Lowri Wilson, Llanwenog A; cydradd 3ydd Teleri Evans, Caerwedros a Meira Lloyd, Llangeitho;
Siaradwr – 1af Enfys Hatcher, Llanwenog B; 2il Trystan Jones, Caerwedros; cydradd 3ydd Cerys Jones, Llanwenog A ac Arwel Jenkins, Llanwenog C;
Tîm – 1af Caerwedros; 2il Llanwenog C;

Ar ddiwedd y cystadlu brwd fe ddaeth Clwb Llanwenog yn fuddugol, Clwb Pontsian yn yr ail safle, a Llangeitho yn drydydd.



## Dathlu 70

Mi fydd CFfI Ceredigion yn dathlu 70 mlynedd yn 2011-2012, ac mae llu o ddigwyddiadau wedi trefnu:

| | |
|---|---|
| **Nos Wener 2il o Fedi 2011:** | **Lansiad Llyfr Dathlu a Sioe Ffasiwn, Prifysgol Llambed** |
| **12/13/14 o Hydref 2011:** | **Sioe Dathlu'r 70, Theatr Felinfach** |
| **Nos Sul 4ydd o Ragfyr 2011:** | **Cymanfa Ganu'r Dathlu, Tabernacl, Aberaeron** |
| **Nos Sadwrn 30ain o Fehefin 2012:** | **Cinio Dathlu - Pafiliwn Cymru, Bontrhydfendigaid** |

Os hoffech chi fod yn rhan o'r broses sgriptio ar gyfer sioe'r dathlu, mae croeso i chi fynychu gweithdy agored ar **Nos Fercher 17eg o Dachwedd** yn Theatr Felinfach– am 7.30 y.h. Hefyd os oes gennych hen luniau o'r mudiad cysylltwch â'r swyddfa er mwyn i ni gael eu cynnwys yn llyfr y dathlu a fydd yn cael ei lawnsio ar yr 2il o Fedi 2011.

## Splash 2011

Cofiwch am Splash 2011! Fel rhan o'r dathliadau 70, mi fydd CFfI Ceredigion yn cynnal Splash yn 2011 yn Llanllyr, Talsarn

**24 & 25 Mehefin 2011**

CASTLE Architectural Designs Ltd

**Matthew Edwards MCIAT**
**Architectural Technologist**

Office : 01239 711 169
Fax : 01239 711 179
Mobile : 07970 113 198

Bank House
9 Bridge Street
Newcastle Emlyn
Carmarthenshire
SA38 9DX

Complete Planning & Building Regulations Services
Self-Build Specialists
Extensions & Attic Conversions
Barn Conversions
Deed Plans for

Adeiladau Amaethyddol Agricultural Buildings
Huw Lloyd & Son
01570 470673
07811 846296

Gweithdy Banc Sion Cwilt

*Am bob math o Waith Coed*
*Purpose made Joinery*

*Grisiau · Ffenestri · Drysau · Estyniadau Gwydr*
*Stairs · Windows · Doors · Conservatories*

*Pren Meddal a Chaled – PVCu*
*Hardwood and Softwood – PVCu*

CENFIL REEVES
Garreg Wen . Talgarreg . Llandysul . SA44 4XB
Ffôn: 01545 590254
e-bost – cenfil@bancsioncwilt.co.uk
www.bancsioncwilt.co.uk
FENSA

ROOFING SHEETS
A BIG CHOICE AT VERY GOOD PRICES
You'll also get FREE DELIVERY!
We are the largest distributors of fibre cement and metal sheets in West Wales
SUPPLIERS OF:
Box Profile Sheets, Corrugated Zinc Sheets, Big 6' and 3' Fibre Cement. Zed and Zeta Purlings, RSJs, Box and Angle, Flat Sheets and Flashings, PVC and Fibre Cement Gutters, Sliding Door Gear, Curtain Strip, Ventair Side Cladding.
AD-CLAD
The Stores, Station Road, Llanwrda
(01550) 777 497 After Hours: (01550) 777 363

## DYDDIADAU I'W COFIO

**TACHWEDD**

**8** Cwis Y Sir
**10** Hyfforddiant Biff Tew
**14** Cyfweliadau Teithiau Tramor Cymru
**14** Gymanfa'r Frenhines
**17** Noson Agored: drafod y Sioe Dathlu, Theatr Felinfach
**18** Barnu Carcas
**20** Eisteddfod C.Ff.I Cymru
**24** Pwyllgorau'r Sir
**25** Cwis Iau y Sir

**RHAGFYR**

**3** Chwaraeon Dan-Do
**4** Penwythnos Cyfweliadau Rhyngwladol FfCCFfI
**29** Dawns Y Frenhines

**IONAWR**

**14** Cystadleuaeth 'Just a Minute'
**19** Pwyllgorau'r Sir
**23** Siarad Cyhoeddus Cymraeg

**CHWEFROR**

**5** Cyngor ac Is-bwyllgrau CFfI Cymru
**18** Cyfweliadau Aelod Hŷn ac Iau
**21-25/28** Hanner Awr Adloniant

## Tîm Golygu

Wyn Thomas
Meira Lloyd

Sara Downes
Teleri Morris-Thomas
Gwennan Davies
Caryl Hâf



Diolch i Tim Jones am rai luniau, ac i'r rhai hynny a wnaeth cyfrannu.

Diolch hefyd i'r noddwyr am eu rhoddion ariannol sy'n sicrhau parhad i'r cylchgrawn.